# Powys County Council
# Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 17 May, 2023. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

| | |
|---|---|
| **Councillor:** Jake Berriman | **Tel:** |
| **Ward:** Llandrindod North | **Mobile:** 07539222968 |
| **Shire:** Radnorshire | **Email:** cllr.jake.berriman@powys.gov.uk |
| **Group:** Welsh Liberal Democrats | **Date:** 2022-2023 |

**Section 1: Role & Responsibilities**

Details of the Committees and Working Groups in which I participated, and my attendance are available via the following link to my page on the Council website: Committees and attendance

As a Member of Cabinet, formal meetings are held fortnightly with informal meetings with the Executive Management Team held weekly. Attendance at the Economy, residents and Communities Scrutiny Committee is by invitation to present papers or to be questioned on any aspect of my portfolio. Additionally, I sat on the Transformation Board, Safeguarding Board and Corporate Parenting Board. I attended and Chaired the Local Development Plan Working Group and represented Powys Council in a range of external meetings

I served on the following outside organisations:
Local Education Authority representative appointed Governor for Trefonnen Primary School.

**Section 2: Constituency activity**

**Advice Surgery Sessions**: I have held regular face to face Advice Surgeries at the Liberal Democrat office on a monthly basis.

**Blog**: I have a Councillor Jake Berriman Llandrindod North Facebook page and in addition to regular posts and interactions, I have, since my appointment, posted monthly Blogs on my site. These cover a variety of topics as well as providing information on my whereabouts and activities each month, including my Abbeycwmhir weekly walking group.

**Local concerns**: I maintain a log of all the issues which I am approached to represent people on, including housing matters, disabled parking, assisted living, education, business rates and support, planning, speeding, potholes and so on.

**Championing local issues**: I have played an active role in **litter picking** and carrying out minor pruning and **environmental improvements** across the North ward, whilst enlisting the support of the Highways team to clear gullies and verges, and chop back vegetation that is impeding the proper use of footpaths.

Whilst unsuccessful in my dialogue with the Welsh Government over introducing a **safe crossing** point on the Tremont Road (by the Tremont Park pedestrian exit), the Safer Routes team has installeda new crossing point between Tesco and Waterloo Road.

I have worked with residents at Lon Cwm regarding the creation of a Community green, which they now tend, and residents at Neslon Street and Llys Heulog over the "Sunny Patch" green space, whcih now has new pedestrian paths to compliment tree and bulb planting and living goal posts.

Afforts to reconnect residents at Tremont park with their green are now begining to bear fruit with the ground due to be transfered shortly.

**Community Fund**: I have established the Llandrindod North Ward Community Grant Fund, allocating about 5% of my allowance, to local groups benefiting people in my ward. Awards of up to £150 are now available throughout the year. Full details can be seen on my Facebook Page.

**Section 3: Learning & Development**

Details of my attendance at learning and development sessions are available via the following link to my page on the Council website:
Member development and seminars

**Section 4: Outside organisations and other activities**

As might be expected with a Cabinet Member, I now have a number of roles beyond that as a ward Member.   I chair the Corporate Joint Committee (CJC) Strategic Planning Sub-Group which has the responsibility to deliver a Regional Strategic Development Plan. I have been engaging with Welsh Ministers on this matter to seek sufficient resources and or concessions regarding the timing of Powys' replacement Local Development Plan.
I represent Powys on the Joint Phosphates Commission brought together by Herefordshire Council to address the Problems in the River Wye (and Lugg). I have been engaging with the Welsh Government, as appropriate on this matter.
I sit on the Joint Council for Wales in respect of employment matters.

# Cyngor Sir Powys
# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 17 Mai, 2023.  Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd:** Jake Berriman | **Ffôn:** |
| **Ward:** Llandrindod - Gogledd | **Ffôn symudol:** 07539222968 |
| **Sir:** Sir Faesyfed | **Ebost:** cllr.jake.berriman@powys.gov.uk |
| **Grŵp:** Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | **Dyddiad:** 2022-2023 |

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Mae manylion y Pwyllgor a'r Gweithgorau yr wyf wedi cymryd rhan ynddynt ynghyd â fy mhresenoldeb ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor: Pwyllgorau a phresenoldeb

Fel Aelod o'r Cabinet, cynhelir cyfarfodydd ffurfiol bob pythefnos, a chynhelir cyfarfodydd anffurfiol gyda'r Tîm Rheolaeth Weithredol bob wythnos. Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor Craffu'r Economi, Trigolion a Chymunedau trwy wahoddiad, er mwyn cyflwyno papurau neu i ateb cwestiynau ar unrhyw agwedd ar fy mhortffolio.  Yn ogystal roeddwn yn eistedd ar y  Bwrdd Trawsnewid, y Bwrdd Diogelu a'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Roeddwn yn mynd i gyfarfodydd ac yn Gadeirydd Gweithgor y Cynllun Datblygu Lleol, a chynrychiolais Gyngor Powys mewn amrediad o gyfarfodydd allanol.

Bues i'n gwasanaethu ar y sefydliadau allanol canlynol:
Llywodraethwr ar ran yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer Ysgol Gynradd Trefonnen.

**Adran 2: Gweithgaredd yn yr etholaeth**

**Cymorthfeydd**: Rwyf wedi cynnal Cymorthfeydd wyneb yn wyneb rheolaidd yn swyddfa'r Democratiaid Rhyddfrydol yn fisol.

**Blog**: Mae gennyf dudalen Facebook - Y Cynghorydd Jake Berriman Gogledd Llandrindod. Rwy'n cysylltu â phobl leol i drin a thrafod materion ac rwy'n postio am y materion hyn yn rheolaidd. Rwyf wedi postio Blog bob mis ar fy safle ers cael fy mhenodi. Mae'r rhain yn trafod amrywiaeth o bynciau yn ogystal â dangos lle'r wyf wedi bod a'r hyn bues i'n ei wneud bob mis. Mae hyn yn cynnwys fy ngrŵp cerdded wythnosol yn Abaty cwm-hir.

**Pryderon Lleol:** Rwy'n cadw cofnod o'r holl faterion y mae pobl yn gofyn i mi eu cynrychioli. Mae'r rhain yn cynnwys materion tai, parcio i'r anabl, cymorth yn y cartref, addysg, trethi a chymorth busnes, cynllunio, goryrru, tyllau yn y ffordd ac ati.

**Hyrwyddo materion lleol:** Rwyf wedi mynd ati'n weithgar i **godi sbwriel** a gwneud gwaith tocio a **gwelliannau bach i'r amgylchedd** ledled Ward y Gogledd. Rwyf hefyd wedi ennyn cefnogaeth y Tîm Priffyrdd i garthu cafnau ac ymylon ffyrdd, a thocio planhigion sy'n tyfu ar draws llwybrau ac yn eu gwneud yn anodd mynd atynt.

Er nad oeddwn wedi llwyddo o ran fy nhrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglyn â chyflwyno man **croesi diogel** ar Ffordd Tremont (ger allanfa Parc Tremont ar gyfer cerddwyr), mae'r tîm Llwybrau Mwy Diogel wedi gosod croesfan newydd rhwng Tesco a Ffordd Waterloo.

Rwyf wedi gweithio gyda thrigolion Lôn Cwm mewn perthynas â chreu man gwyrdd i'r gymuned; ac maent yn gofalu amdano bellach; a thrigolion Stryd Neslon a Llys Heulog ynghylch y man gwyrdd "Man Heulog", sydd â llwybrau i gerddwyr bellach er mwyn gweddu i'r cynlluniau plannu coed a bylbiau, a physt byw.

Mae'r ymdrechion i ail-gysylltu trigolion Parc Tremont â'u man gwyrdd bellach yn dwy ffrwyth, a bydd y tir yn cael ei drosglwyddo yn y dyfodol agos.

**Cronfa Gymunedol**: Rwyf wedi sefydlu Cronfa Grantiau Cymuned Ward Gogledd Llandrindod, gan ddyrannu rhyw 5% o'm lwfans, i grwpiau lleol er mwyn i bobl leol yn fy ward elwa. Bellach mae grantiau gwerth hyd at £150 ar gael trwy gydol y flwyddyn. Mae'r manylion llawn ar gael ar fy Nhudalen Facebook.

**Adran 3: Dysgu a Datblygiad**

Mae manylion y sesiynau dysgu a datblygu yr wyf wedi eu mynychu ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor:
Seminarau a sesiynau Datblygau Aelodau

**Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill**

Fel y gellir disgwyl ar gyfer Aelod o'r Cabinet, erbyn hyn mae gen i nifer o gyfrifoldebau yn ogystal â'm rôl fel Aelod ar gyfer ward. Rwyf yn cadeirio Is-grŵp Cynllunio Strategol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC) sy'n gyfrifol am gyflawni Cynllun Datblygu Strategol Rhanbarthol. Rwyf wedi ymgysylltu â Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar y mater hwn er mwyn ceisio digon o adnoddau a/neu gonsesiynau mewn perthynas ag amseru Cynllun Datblygu Lleol newydd Powys.
Rwyf yn cynrychioli Powys ar y Cyd-gomisiwn Ffosffadau, a grëwyd ar y cyd â Chyngor Sir Henffordd i fynd i'r afael â'r problemau ar yr Afon Gwy (a Llugwy). Rwyf wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn hefyd, fel bo'n briodol.
Rwyf yn aelod o Gyd-bwyllgor Cymru mewn perthynas â materion cyflogaeth.

# Portfolio Holder's Annual Report

| **Section 1: Cabinet Member for a Connected Powys**<br><br>My responsibilities included the following:<br>• Digital Powys Programme<br>• Planning, incl. Chair of the replacement Local Development Plan Working Group, Development Management and Enforcement and the development of a Strategic Development Plan with our partners<br>• Property maintenance, compliance, acquisitions, and sales<br>• Customer Services & Information Governance<br>• Corporate Health & Safety incl. Chair of Corporate Health and Safety Forum<br>• Workforce and Organisation Design & Development incl. Chair of Joint Consultative and negotiating Committee<br>• Workforce Futures Programme close down and extending the Real Living Wage |
|---|
| **Section 2: Portfolio Holder's activities**<br><br>2022/3 has been a busy and rewarding year familiarising myself with my new Cabinet role and Portfolio responsibilities. Much early focus was given over to helping engage with other members and staff on the replacement - Stronger, Fairer Greener - Corporate Plan ensuring that it clearly and concisely set out our ambitions and actions to deliver our 3 wellbeing goals.<br><br>Alongside of an external audit of the planning service I have chaired a Service Improvement Panel reviewing processes and procedures and coming up with a delivery plan to guide service change and development.<br><br>I have overseen the production and publication of a new Corporate Asset Strategy to ensure that we have the right assets in the right place at the right time to support our activities and the work of our partners, tenants and communities.<br><br>I have overseen the closure of the Workforce Futures Programme, embedding practices into business as usual, introduced the Real Living Wage across the workforce, including our apprentices and established a new project around Recruitment and Retention, which as been identified as a significant corporate risk to the Council.<br><br>I have listened to public concerns and expectations and initiated a full external review of Customer Services, whilst our Digital First approach has had significant success in streamlining access to services, a priority in our new Corporate Plan. |
| **Section 3: Portfolio Holder and Cabinet representation on outside organisations etc.**<br><br>I chair the Corporate Joint Committee (CJC) Strategic Planning Sub-Group which has the responsibility to deliver a Regional Strategic Development Plan. I have been engaging with Welsh Ministers on this matter to seek sufficient resources and or concessions regarding the timing of Powys' replacement Local Development Plan. |

I represent Powys on the Joint Phosphates Commission brought together by Herefordshire Council to address the problems in the River Wye (and Lugg). I have been engaging with the Welsh Government, as appropriate on this matter.

I sit on the Joint Council for Wales in respect of employment matters.

# Adroddiad Blynyddol yr Aelodau Portffolio

**Adran 1 - Aelod Cabinet ar gyfer Cysylltu Powys**

Roedd fy nghyfrifoldebau portffolio yn cynnwys y canlynol:

- Rhaglen Powys Ddigidol
- Cynllunio, gan gynnwys Cadeirydd Gweithgor y Cynllun Datblygu Lleol newydd Rheolaeth Datblygu a Gorfodi a datblygu Cynllun Datblygu Strategol gyda'n partneriaid
- Cynnal a chadw eiddo, cydymffurfio, derbyniadau a gwerthu
- Gwasanaethau Cwsmer a Llywodraethu Gwybodaeth
- Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gan gynnwys Cadeirydd y Fforwm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Dylunio a Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad gan gynnwys Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol a Thrafodaethau
- Cau lawr Rhaglen Dyfodol y Gweithlu ac ymestyn y Cyflog Byw Gwirioneddol

**Adran 2: Gweithgaredd yr Aelod Portffolio**

Mae 2022/3 wedi bod yn flwyddyn brysur a gwerth chweil, yn cyfarwyddo â'm rôl newydd yn y Cabinet a chyfrifoldebau'r Portffolio. Roedd llawer o'r ffocws cynnar ar helpu ymgysylltu ag aelodau eraill a staff ar weddnewid y Cynllun Corfforaethol newydd – Cryfach, Tecach, Gwyrddach gan sicrhau ei fod yn olrhain yn glir ac yn gryno ein huchelgais a'n camau gweithredu er mwyn gwireddu ein 3 nod llesiant.

Ochr yn ochr ag archwiliad allanol o'r gwasanaeth cynllunio, rwyf wedi cadeirio Panel Gwella'r Gwasanaeth, sy'n adolygu prosesau a gweithdrefnau a llunio cynllun cyflenwi i lywio newidiadau a datblygiadau i'r gwasanaeth.

Rwyf wedi goruchwylio cynhyrchu a chyhoeddi Strategaeth Asedau Corfforaethol newydd i sicrhau fod gennym yr asedau cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir er mwyn cefnogi ein gweithgareddau a gwaith ein partneriaid, tenantiaid a chymunedau.

Rwyf wedi goruchwylio cau Rhaglen Gweithlu'r Dyfodol, gan ymwreiddio arferion i fusnes fel arfer, wedi cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws y gweithlu, gan gynnwys ein prentisiaid, ac wedi sefydlu prosiect newydd ym maes Recriwtio a Chadw Staff, a nodwyd yn risg corfforaethol arwyddocaol i'r Cyngor.

Rwyf wedi gwrando ar bryderon a disgwyliadau'r cyhoedd, ac wedi cychwyn adolygiad allanol llawn o'n Gwasanaethau Cwsmer, a chafwyd llwyddiant sylweddol gyda'n rhaglen Digidol yn Gyntaf o ran mireinio mynediad at wasanaethau, un o flaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol newydd.

**Adran 3: Cynrychiolaeth fel Deiliad Portffolio ac Aelod o'r Cabinet ar gyrff allanol ac ati.**

Rwyf yn cadeirio Is-grŵp Cynllunio Strategol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC) sy'n gyfrifol am gyflenwi Cynllun Datblygu Strategol Rhanbarthol. Rwyf wedi ymgysylltu â

Gweinidogion Cymru ar y mater hwn er mwyn ceisio digon o adnoddau a/neu gonsesiynau mewn perthynas ag amseru Cynllun Datblygu Lleol newydd Powys.

Rwyf yn cynrychioli Powys ar y Cyd-gomisiwn Ffosffadau a ddatblygwyd ar y cyd â Chyngor Sir Henffordd i fynd i'r afael â'r problemau yn yr Afon Gwy (a Llugwy). Rwyf wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn hefyd, fel bo'n briodol.

Rwyf yn aelod o Cyd-gyngor Cymru mewn perthynas â materion cyflogaeth.